

Cais i gymeradwyo manylion sydd wedi'u cadw'n ôl drwy amod yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

Bydd angen gwneud cais i gymeradwyo manylion sydd wedi'u cadw'n ôl drwy amod lle mae angen i amod mewn caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig gael manylion ynghylch agwedd benodol ar y datblygiad nas disgrifiwyd yn llawn yn y cais gwreiddiol.

Mae angen i'r manylion hyn gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo cyn y gall y datblygiad ddechrau. Fel y cyfryw, nid yw cais i gymeradwyo manylion sydd wedi'u cadw'n ôl drwy amod yn gais am ganiatâd cynllunio na chaniatâd adeilad rhestredig.

Gallwch wneud cais drwy ysgrifennu llythyr i'ch awdurdod gyda manylion y cais a gafodd ganiatâd, yr amod(au) rydych am iddo ei gymeradwyo neu eu cymeradwyo, a manylion am sut rydych yn bwriadu bodloni'r amodau hynny (er enghraifft, manylion y deunyddiau a ddefnyddir neu'r math o waith a wneir). Dylech hefyd gynnwys gwybodaeth gyswllt fel bod yr awdurdod yn gallu ymateb i'ch cais.

NID OES UNRHYW OFYNION CENEDLAETHOL o ran ceisiadau i gymeradwyo manylion sydd wedi'u cadw'n ôl drwy amod ar wahân i'r ffaith y dylid eu gwneud yn ysgrifenedig ac y dylai'r awdurdod benderfynu arnynt o fewn wyth wythnos i ddilysu'r cais.

Fodd bynnag, efallai y bydd gan awdurdodau unigol 'ofynion lefel leol' sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol neu ddogfennau ategol (megis cynlluniau neu ffotograffau) gael eu cyflwyno gyda'r cais. Dylai fod modd gweld y gofynion hyn ar wefan yr awdurdod neu gellir eu cadarnhau drwy gysylltu â'r awdurdod yn uniongyrchol.

Fel arall, efallai y bydd ymgeiswyr am ddefnyddio system gwneud cais ar-lein neu ffurflenni papur safonol y Porth Cynllunio i nodi'r manylion y byddent yn hoffi i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried eu cymeradwyo.

Os dewisir dilyn un o'r opsiynau hyn, bydd angen i ymgeiswyr gynnwys cynllun o leoliad y safle a chynlluniau'r gwaith arfaethedig (sef, fel rheol, yr un dogfennau â'r rhai a gyflwynwyd fel rhan o'r cais a gymeradwywyd y mae a wnelo'r amodau sydd angen eu cymeradwyo ag ef).